**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref/Ein cyf: MA-(L)-LA-0157-15

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Tachwedd 2015

Annwyl William,

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y darpariaethau ardrethi annomestig yn y Bil Menter ("y Bil"), a osodais ar 1 Hydref 2015.

Yn ystod hynt y Bil trwy Senedd y DU, dywedodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ("DCLG") fod angen gwelliant i'r darpariaethau ar rannu data am ardrethi annomestig yng nghymal 22 o'r Bil, i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyflawni nodau'r polisi'n llawn.

Ar hyn o bryd o dan adran 18(1) o Ddeddf 18(1) o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 (y "CRCA") gosodir dyletswydd gyfrinachedd ar staff Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), fel swyddogion Cyllid a Thollau. Mae'r ddyletswydd gyfrinachedd hon yn golygu na chaiff staff VOA ddatgelu gwybodaeth sy'n enwi trethdalwr, oni chaniateir datgeliad o'r fath o dan amgylchiadau penodol. Mae Adran 23(1) o CRCA yn egluro'r rhyngweithio rhwng y gofyniad cyfrinachedd yn adran 18(1) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "FOIA"), ac yn darparu bod gwybodaeth sy'n dod o fewn adran 18(1) wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan FOIA lle byddai datgeliad o'r fath naill ai'n enwi person neu'n galluogi enw person i gael ei ganfod ("gwybodaeth am drethdalwr"). I bob pwrpas mae adran 23(1) o CRCA yn gosod gwaharddiad statudol ar ddatgelu gwybodaeth o'r fath.

Effaith geiriad cymal 22 o'r Bil fel y'i drafftiwyd adeg ei gyflwyno fyddai y byddai'r gwaharddiad statudol ar ddatgelu'n peidio â bod yn gymwys unwaith y byddai wedi pasio o'r VOA trwy'r broses gyfreithiol. O ganlyniad, gofynnodd y VOA fod gwelliant yn cael ei wneud i'r Bil a fyddai'n ymestyn y gwaharddiad statudol presennol fel y bydd yn parhau i fod yn gymwys pan fydd gwybodaeth am drethdalwyr wedi cael ei rhannu o dan gymal 22.

Heb sicrwydd gwaharddiad statudol roedd y VOA o'r farn bod y risg o ddatgeliad amhriodol yn gyfryw fel na fydd ganddi'r hyder i rannu'r holl wybodaeth sy'n dod o fewn cwmpas cymal 22. O ganlyniad, câi llawer o fudd cymal 22 ei golli a byddai rhaid i'r Awdurdodau Lleol ddal i ofyn am yr wybodaeth ddyblyg yn uniongyrchol gan drethdalwyr.

O ganlyniad cafodd gwelliant i gymal 22 ei gyflwyno i'r Bil gan y Farwnes Neville-Rolfe ar 19 Tachwedd 2015 yn ymestyn y gwaharddiad statudol presennol fel y bydd yn dal i fod yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line: 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

gymwys pan fydd gwybodaeth am drethdalwyr wedi cael ei rhannu o dan gymal 22. Mae'r gwelliant hwn yn cydnabod bod gwybodaeth am drethdalwyr a ddelir gan y VOA yn cael ei hennill naill ai o dan orfodaeth neu'n cael ei darparu gan drethdalwyr o dan fygythiad gorfodaeth. Mae gwybodaeth a enillir yn y dull hwn yn aml yn destun gwaharddiad statudol o dan FOIA gan nad yw perchennog yr wybodaeth yn gallu ystyried goblygiadau datgelu o dan FOIA cyn darparu'r data. Mae hefyd yn gyson â'r gwaharddiad statudol presennol sy'n diogelu gwybodaeth am drethdalwyr rhag cael ei datgelu tro bo'n cael ei dal gan y VOA.

Diben y gwelliant hwn yw hwyluso rhoi'r amcan polisi ar waith yn effeithiol ac nid yw'n ymestyn y polisi nac yn tynnu oddi arno. Ymhellach, mae'r egwyddor y dylai gwybodaeth am drethdalwyr a ddelir gan y VOA gael ei diogelu rhag cael ei datgelu o dan FOIA eisoes wedi ennill ei phlwyf; gan hynny ceir gwaharddiad statudol. Unig ddiben y gwelliant yw ymestyn y diogelwch a roddir ar hyn o bryd i wybodaeth am drethdalwr a ddelir gan VOA, i'r grŵp ehangach o dderbynwyr y caniateir rhannu data â hwy ag ef o ganlyniad i gymal 22. Nid yw'r gwelliant arfaethedig felly'n cyflwyno unrhyw egwyddorion newydd ac mae'n gyson â'r polisi presennol. O ganlyniad, ni fyddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan nad yw'r gwelliant yn gwneud newidiadau sylweddol i'r polisi: nid yw ond yn sicrhau y gellir rhoi grym i'r polisi.

Caf ar ddeall fod y Pwyllgor Menter a Busnes wrthi'n ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 22 o'r Bil ac roeddwn am dynnu'ch sylw at y gwelliant hwn ac at ei ddiben a'i effaith.

Rwyf yn ddiolchgar am gymorth y Pwyllgor yn y mater hwn.

Yn gwyir

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services